Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**6 Chwefror 2024**

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Diwallu anghenion dioddefwyr yn y system cyfiawnder troseddol: Arolygiad o ba mor dda y mae'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Gwasanaeth Prawf yn cefnogi dioddefwyr trosedd**

Rwy’n croesawu’r adroddiad hwn a’i argymhellion. Mae bodloni anghenion dioddefwyr yn effeithiol ar draws y system cyfiawnder troseddol yn hanfodol ar gyfer rhoi’r cyfle gorau iddynt ymdopi ac adfer.

Rwy’n cydnabod y canfyddiadau a nodir o fewn yr adroddiad ac yn dawel fy meddwl bod trafodaethau’n mynd rhagddynt yn lleol ac ar lefel Cymru gyfan mewn perthynas â nifer o’r argymhellion a gyflwynwyd.

Er mai dim ond un o’r chwe argymhelliad sy’n cynnwys gofyniad penodol ar gyfer Prif Gwnstabliaid, bydd yr holl argymhellion yn effeithio ar waith fy Swyddfa a Heddlu Dyfed-Powys (HDP) yn y dyfodol. Gan hynny, rwyf wedi nodi fy marn am yr holl argymhellion, yn ogystal â sicrwydd a dderbyniwyd gan Brif Gwnstabl HDP, Dr Richard Lewis, mewn cyfarfod o’m Bwrdd Plismona ar 23 Ionawr 2024.

**Argymhelliad 3**
**Erbyn 31 Rhagfyr 2024, dylai’r Coleg Plismona weithio gyda Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a phrif gwnstabliaid i ddatblygu safonau gofynnol ar gyfer cwblhau asesiadau o anghenion dioddefwyr. Dylai'r rhain gynnwys safonau ar gyfer prydlondeb cwblhau ac eglurder ar y wybodaeth sydd i'w chofnodi.**

Mae’r argymhelliad hwn wedi’i gofrestru ar borthol AHGTAEF HDP ac mae Prif Arolygydd o’r Adran Cyfiawnder Troseddol wedi’i benodi’n arweinydd er mwyn sicrhau y gwneir cynnydd.

Bydd y llywodraethu’n dod o dan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Strategol, Dalfeydd, Cudd-wybodaeth ac Ymchwilio, lle y bydd angen diweddariad ym mhob cyfarfod. Bydd fy swyddfa’n monitro cynnydd drwy fynd i’r cyfarfod hwn.

Rwy’n ymwybodol o waith parhaus yr Heddlu i wella gwasanaeth i ddioddefwyr o ganlyniad i faes ar gyfer gwella a nodwyd yng nghanfyddiadau archwiliad 2023-25 PEEL HDP. Mae’r gwaith hwn yn cyd-fynd yn agos â’r argymhellion uchod, gan gwmpasu codi ymwybyddiaeth a gwella sgiliau o ran cwblhau asesiadau o anghenion dioddefwyr. Ers yr archwiliad, mae’r Heddlu wedi rhannu canllawiau ag aelodau staff ar gyfer cwblhau’r templed asesiad o anghenion dioddefwyr, ac wedi ymgymryd ag ymarfer hap samplu ar sawl agwedd o ymateb i ddigwyddiadau ac ymchwilio, gan gynnwys asesiadau o anghenion dioddefwyr. Mae hyn yn sicrhau bod camgymeriadau a phroblemau cyffredin yn cael eu bwydo’n ôl i swyddogion.

**Argymhelliad 1**
**Erbyn 31 Rhagfyr 2024, dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref a Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol gydweithio i ddefnyddio'r arolygiad hwn fel sail ar gyfer adolygiad ehangach a sylfaenol o brofiad dioddefwyr troseddau , gan gynnwys adrannau ac asiantaethau eraill y Llywodraeth yn ôl yr angen.**

Rwy'n croesawu unrhyw gyfleoedd i'm Swyddfa fwydo i mewn i unrhyw adolygiad o'r fath. Yn yr un modd, mae'r Prif Gwnstabl yn cytuno y dylai'r Heddlu gymryd rhan yn yr adolygiad os oes angen iddynt wneud hynny. Bydd gan swyddogion ar y rheng flaen ac mewn adrannau arbenigol fewnwelediad gwerthfawr i'w rannu a byddant yn falch o eirioli ar ran y dioddefwyr maen nhw'n gweithio'n galed i gael cyfiawnder iddynt.

Byddwn hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys dioddefwyr a goroeswyr yn yr adolygiad. Mae'n hollbwysig clywed yn uniongyrchol wrth y rhai sydd â phrofiadau byw. Mae fy Swyddfa'n cydlynu'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, a byddwn yn annog ymgysylltiad â'n haelodau Fforwm, y maent oll wedi'u heffeithio gan drosedd, am adborth ar eu profiadau fel rhan o'r adolygiad.

Mae fy Swyddfa hefyd yn gweithio'n agos â Phartneriaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched Canolbarth a Gorllewin Cymru, sydd â Phanel Cynghori Dioddefwyr. Gellid cysylltu ag aelodau'r Panel hwnnw hefyd fel rhan o'r adolygiad ehangach.

**Argymhelliad 2**
**Erbyn 30 Medi 2024, dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ddatblygu metrigau perfformiad Cod Dioddefwyr a systemau adrodd. Dylai'r rhain gynnwys sut mae cyrff cyfiawnder troseddol yn ymgysylltu â dioddefwyr ac ansawdd yr ymgysylltu. Dylai metrigau perfformiad hefyd gynnwys mesurau o ba mor dda y mae cyrff cyfiawnder troseddol yn cael adborth gan ddioddefwyr a pha mor dda y maent yn defnyddio hyn i asesu ansawdd ymgysylltu a gwella ansawdd gwasanaethau.**
**Erbyn 31 Mawrth 2025, dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder roi'r metrigau perfformiad a'r systemau adrodd hyn ar waith ar draws cyrff cyfiawnder troseddol.**

Er fy mod i'n cefnogi cyflwyno metrigau perfformiad, rhaid inni beidio ag aros tan fis Mawrth 2025 i graffu ar berfformiad yn erbyn y Cod Dioddefwyr. Yn lleol, mae trafodaethau'n parhau rhwng HDP a'm Swyddfa mewn perthynas â gweithgarwch craffu pwysig ar gydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr sy'n mynd rhagddo.

Yn ychwanegol at hyn, mae fy Swyddfa a HDP yn rhan o sgyrsiau ar lefel Cymru gyfan, drwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, am natur gweithgarwch cydymffurfio presennol â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr tra'n bod ni'n aros am fetrigau perfformiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru'n dod ag asiantaethau cyfiawnder troseddol a phartneriaid datganoledig ledled Cymru at ei gilydd i gydweithio ar faterion a heriau cyffredin. Un o'r rhain yw cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr. Cytunwyd y bydd pob sefydliad yn rhannu ei ddata ynghylch cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu, i'w drafod yn ein Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol. Bydd hyn yn cynyddu tryloywder ac atebolrwydd o ran cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr gan bawb.

Yn bwysig ddigon, ar y lefel Cymru gyfan hon, ystyrir ymagwedd graffu hefyd a fydd yn cipio ansawdd profiad y dioddefwyr mewn ffordd na fydd modd i'r data cydymffurfiaeth meintiol â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr wneud. Yn y misoedd sydd i ddod, cyflwynir ymagwedd graffu ansoddol newydd drwy ein Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol lle bydd modd inni brofi pa un ai a yw cydymffurfiaeth asiantaethau â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr yn arwain at brofiad cyffredinol gwell i ddioddefwyr. Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru'n ymgysylltu â chydweithwyr o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn sicrhau y bydd ymagwedd Cymru gyfan yn unol â'u hymchwil.

**Argymhelliad 4**
**Erbyn 30 Medi 2024, dylai Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron gytuno ar safonau gofynnol a phrosesau cyson ar gyfer y modd y mae unedau neu swyddogaethau gofal tystion yn cyfathrebu â'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a dioddefwyr i helpu gwybodaeth effeithiol, ystwyth ac amserol- rhannu fel bod anghenion dioddefwyr yn cael eu diwallu.**

Yn ddiweddar, cydlynodd fy Swyddfa weithdy ymadael cam-drin domestig cydlynol gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cymorth, lle y trafodwyd y rhesymau pam y mae dioddefwyr yn tynnu eu cefnogaeth yn ôl. Cyflwynwyd awgrymiadau ar gyfer sut y gellid lleihau'r nifer sy'n ymadael ac maen nhw nawr yn cael eu gweithredu gan bawb dan sylw. Mae'r darn o waith hwn yn cael ei gydlynu o fewn y pedwar ardal heddlu yng Nghymru, a bydd yn caniatáu ar gyfer ystyried themâu cyffredin yn genedlaethol.

O berthnasedd penodol i'r archwiliad hwn, tynnodd y rhai a oedd yn bresennol yn y gweithdy sylw at bwysigrwydd cyfathrebu effeithiol rhwng gwasanaethau cymorth a sefydliadau cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn sicrhau bod gan bawb y wybodaeth berthnasol ac ymwybyddiaeth o wasanaethau dioddefwyr, gan eu galluogi i gynghori dioddefwyr yn well a sicrhau bod anghenion dioddefwyr yn cael eu bodloni.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

**Argymhelliad 5**
**Erbyn 31 Rhagfyr 2024, dylai Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu weithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i sicrhau bod pob dioddefwr cymwys yn cael ei gyfeirio at y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr.**

Mae fy sylwadau ar yr argymhelliad hwn wedi'u crynhoi isod, yn fy ymateb i argymhelliad 6.

**Argymhelliad 6**
**Erbyn 30 Medi 2024, dylai'r Gwasanaeth Prawf ddarparu hyfforddiant ar waith y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr i bob ymarferydd prawf a'r rhai dan hyfforddiant. Dylai'r dysgu gynnwys beth sydd ynghlwm wrth y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr a sut mae ymarferwyr prawf yn gweithio gyda swyddogion cyswllt dioddefwyr i gadw dioddefwyr yn ddiogel.**

Cafwyd trafodaethau hefyd am y gweithdy y sonnir amdano uchod mewn perthynas â'r Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr: nodwyd bod diffyg ymwybyddiaeth o'r Cynllun, gan asiantaethau cyfiawnder troseddol a dioddefwyr, yn rheswm posibl dros ymadael.

Un o'r camau gweithredu o'r gweithdy oedd i staff y Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr weithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun. Bydd hyn yn cynorthwyo â'r gofynion o dan Argymhellion 5 a 6, gan sicrhau bod pob dioddefydd cymwys ledled ardal Dyfed-Powys yn cael eu cyfeirio at y Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr.

Byddaf yn parhau i graffu ar gynnydd yr Heddlu yn erbyn Argymhelliad 3 yn benodol, yn ogystal â'r gwaith yr ymgymerir ag ef yn lleol ac ar lefel Cymru gyfan yn erbyn yr argymhellion sy'n weddill.